# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 9fed Mehefin 2025
## Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Dafydd Williams, Gareth Jones, Alyn Williams, Henry Hughes, Deio Williams, John Davies, Alan Hughes, Sian Parri, Terry Hughes

Ymddiheuriadau: Sioned Pearson

1. Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r is gadeirydd, daeth Sian Parri i'r gadair i gadeirio ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Doedd dim diweddariad i adrodd i'r Cygor
   b. **Polisi Gosod Tai** –Cyflwynodd Sian Parri diweddariad or y sefyllfa a chafwyd thrafodaeth wedyn.

Roedd nifer o aelodau wedi gweld cyfweliad Llinos Medi Aelod Seneddol Sir Fon yn cadarnhau fod Plaid Cymru yn gweithredu polisi o fewnfudo pobl i gefn gwlad Cymru a fod ganddi hi ddyhead i ddwad a merched Affganistan i gyd i fyw i Gymru er na fydda nhw yn geisiwyr lloches cyfreithlon.
Gwnaeth aelod sylw, nad merched o Affganistan na cheisiwyr lloches sydd yn byw yn y tai tafarnau ac yn achosi pryder i bobl Pwllheli. Eglurodd Sian fod pobl o Gymru gyfan ac o Loegr yn cael rhoi eu henwau ar Gofrestr Tai Gwynedd a fod Cyngor Gwynedd yn cyfeirio at y Gofrestr yma wrth gyfiawnhau codi mwy o dai cymdeithasol nac sydd yna o Gymry Cymraeg angen. Allan o'r bobl o Loegr a Chymru gyfan sydd ar y Gofrestr y rhai sy'n cael y cynnig cyntaf i gael tŷ ydi pobl ddi-gartref, neu efo problemau ymddygiad, neu yn dymuno cael dechra newydd ar ôl bod mewn carchar, pobl sydd angen cefnogaeth gwasanaeth cymdeithasol ayyb fel sydd wedi nodi yn y Polisi Gosod Tai Gyffredin Cyngor Gwynedd efo Adra a Grŵp Cynefin. Dywedodd aelod ei fod yn clywed plant Tydweiliog yn chwarae yn Saesneg

am y tro cyntaf am fod teulu di-gymraeg wedi sefydlu aelwyd Saesneg mewn tŷ cymdeithasol yng Nhudweiliog.
Fe drafodwyd fod cais Cynefin wedi ei basio er fod Cyngor Tref Nefyn a Tudweiliog wedi ei wrthwynebu. Roedd Sian wedi cael ei henwi gan Gynghorydd Waenfawr a honnodd ei fod wedi derbyn gohebiaeth ganddi. Eglurodd Sian nad oedd wedi gohebu o gwbwl efo'r Cynghorydd o Waenfawr am gais Nefyn a'i bod yn ymddangos fod y Cynghorydd wedi derbyn copi o ohebiaeth breifath rhyngddi hi a'r Cadeirydd yn ymwneud a sefydlu Polisiau Gosodiadau Lleol yng ngoleuni'r farn gyfreithiol newydd a dderbyniodd Sian gan Gomisiynydd y Gymraeg am fod y Cynghorydd Elwyn Edwards wedi gofyn iddi am fwy o wybodaeth.

Pasiwyd i dderbyn yr adroddiad ac ymchwilio i faint ydi'r angen lleol am dai yn Llŷn mewn gwirionedd. Cytunwyd fod Heulwen a Sian yn gweithredu ar hyn ac yn paratoi rwbath i'r Llanw a thrafod efo'r Cynghorau eraill.

Diweddariad am Bolisi Gosodiadau Lleol-

<u>Cynghorau Cymuned a Thref,</u>
Erbyn hyn mae yna 18 o Gynghorau Cymuned a Thref Gwynedd wedi ymrwymo i weithio tuag at gynyddu canran siaradwyr, aelwydydd a defnydd y Gymraeg ac wedi ymuno efo Cynghorau Llŷn drwy ddynodi eu hardaloedd yn Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol. Mae nhw wedi galw am gefnogaeth Cyngor Plaid Cymru Gwynedd i sefydlu Polisi Gosodiadau Lleol fydd yn gwarchod y Gymraeg ar sail y Cyngor Cyfreithiol newydd a dderbyniwyd drwy law Comisiynydd y Gymraeg.

<u>Caniatau datblygiad Cynefin er gwaethaf gwrthwynebiad CyngorTref Nefyn.</u>
Cafodd cais i godi 14 o dai ei ganiatau yn Nefyn yn er fod Cyngor Tref Nefyn wedi ei wrthwynebu am nad oedd yna Polisi Gosodiadau Lleol yn diogelu'r Gymraeg arno. Mae pryder am drefn y Pwyllgor am fod Aelod o'r Pwyllgor a'r Cadeirydd wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir i'r Aelodau eraill.
Bydd y tai yn cael eu gosod o dan Polisi Gosod Cyffredin Cyngor Gwynedd sydd yn rhoi blaenoriaeth i bobl o Loegr a Chymru gyfan sydd mewn angen tai dwys o flaen pobl Nefyn. Cafwyd cadarnhad o hyn gan Grŵp Cynefin yn y digwyddiad Tai ar Daith a gafodd ei gynnal gan Gyngor Gwynedd yn Nefyn.

<u>Celwydd yn y Pwyllgor Cynllunio</u>
Cafodd Sian Parri ei henwi gan y Cyng Edgar Owen a honodd ei bod wedi anfon gohebiaeth ato ac aeth ymlaen i'w chondemnio a'i beirniadu. Gwnaeth sylwadau anghywir am ohebiaeth Comisiynydd y Gymraeg ac fe wnaeth o a'r Cadeirydd dynnu sylw at achos nad oedd a wnelo ddim a'r cais yn Nefyn, roedd yr honiadau ar wybodaeth anghywir yn debygol o fod wedi dylanwadu ar benderfyniad yr aelodau.

<u>Pwyllgor Rhanbarth Meirion Dwyfor</u>
Mi gyflwynwyd diweddariad Perthyn mewn pwyllgor Plaid Cymru Cangen Llŷn. Penderfynwyd cyflwyno cynnig gan Gangen Llŷn i Bwyllgor Rhanbarth Meirion Dwyfor i gael ei gyflwyno yng Nghynhadledd Plaid Cymru. Cafwyd sylwadau cadarnhaol amdano ond roedd yna hefyd sylwadau negyddol gan y Cyngh. Edgar Owen a dywedodd ' fod yn rhaid ei luchio allan' a dyna ddigwyddodd.

Tai ar Daith yn Nefyn.
Cafwyd cadarnhad gan swyddog fod cynllun Iesio Gwynedd, yn gosod y tai wedyn yn unol a threfn flaenoriaeth Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd sydd yn golygu ei bod yn anhebygol iawn y byddai'r tenantiain yn bobl leol. Cafwyd cadarnhad na fyddai modd i berchnogion y tai ddewis fod eu tai yn cael eu gosog i Gymry Cymraeg.
Cafwyd cadarnhad hefyd fod Grŵp Cynefin wedi cael trafferth i osod tŷ yn stad Congl Meinciau a fu'n wag am gyfnod hir am nad oedd neb yn Botwnnog eisiau tŷ. Cafodd y stad ei chodi yn sgil y cynllun Cymunedau'n Gyntaf ac roedd pobl Llŷn yn bryderus am nad oedd angen clwstr o dai ym Motwnnog ar y pryd ac mae tai yn eu cynefin yn eu pentrefi eu hunain oedd y Cymry Cymraeg ifanc eisiau. Felly bu'n rhaid gosod cytundeb 106 ar y stad yn cyfyngu'r gosodiadau i bobl Botwnnog. Cafodd teulu o Nefyn y tŷ yn y diwedd.
Cafwyd hefyd gadarnhad mae bwriad Cynefin ydi gosod y tai yn Nefyn o dan y drefn bresennol.

b. **Hysbysfwrdd –** Hyd yma ni osodwyd hysbysfwrdd Tudweiliog.
C. **Archwyliad Mewnol –** Derbyniodd y Clerc adroddiad yr Archwyliad Mewnol, bu iddi ei rannu a'r Cynghorwyr dros ebost. Doedd dim pryder wedi ei godi, bydd y Clerc yn gweithredu ar yr argymhelliad a nodwyd.
Ch. **Wal Gwelfor-** Derbyniodd y Clerc ebost gan Hugh O'Donnell Carter Jonas yn nodi fod y gwaith o atgyweirio'r wal yn Mynd yn ei flaen.
d. **Clawdd mynwent Dinas** – Derbyniodd y Clerc gadarnhad gan yr Adran Priffyrdd mai cyfrifoldeb y fynwent yw'r clawdd lon.

4. Yn ystod ail hanner y cyfarfod, gan nad oedd y Cadeirydd na'r is-gadeirydd yn bresennol, penderfynwyd ethol is-gadeirydd – etholwyd Sian Parri.

5. Gohebiaeth:
   a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.
   b. **Llythyr ymddiswyddo'r Clerc-** Darllenodd y Cadeirydd lythyr gan y Clerc yn datgan ei dymuniad I ymddiswyddo, gan roid au fis o rybudd. Bydd hysbyseb yn cael ei gylchredeg yn Llanw Llyn ac yn sffenestr siop Tudweiliog.
   c. **Llythyr o gefnogaeth I Gymdeithas Pengraig – cais am grant.**

.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Gorffennaf 14eg am 7.30yh
Festri Capel Dinas.